**Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 26 Mehefin 2003 |
| **Amser:** | 9:00 |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3 & 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | Y Gweithgor Ehangu |

**Diben**

1. Mae'r papur hwn yn adrodd i'r Aelodau ar bumed cyfarfod y Gweithgor Ehangu a gynhaliwyd ddydd Iau 27 Mawrth 2003 ac ar gynnig i ddirwyn y Gweithgor i ben.

**Argymhelliad**

2. Gwahoddir yr aelodau i gymeradwyo'r cynnig y dylid dirwyn y Gweithgor Ehangu i ben.

**Y Cefndir**

3. Yn ei gyfarfod ar 28 Mehefin 2001, cytunodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ar gylch gorchwyl ac aelodaeth ddrafft ar gyfer gweithgor i ystyried materion ehangu. Mae'r Gweithgor Ehangu bellach wedi cyfarfod bump o weithiau - 8 Hydref 2001, 16 Ionawr 2002, 15 Mai 2002, 14 Tachwedd 2002 a 27 Mawrth 2003.

4. Yn ei gyfarfod ar 14 Tachwedd, gwahoddwyd aelodau'r Gweithgor i ailystyried ei gylch gorchwyl a'i aelodaeth ac adrodd yn ôl i'r ysgrifenyddiaeth. Cyflwynodd sawl aelod sylwadau ysgrifenedig a chytunwyd yn ddiweddarach y byddai ymgynghorwyr yn cael eu comisiynu i gyflwyno argymhellion ar ddyfodol y gweithgor, ynghyd â chynllun ar gyfer parhau â'r agenda ehangu yng Nghymru. Dyfarnwyd y contract i Dimond Associates a gofynnwyd iddynt adrodd yn ôl i'r Grŵp ar 27 Mawrth 2003.

5. Roedd dwy eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod mis Mawrth. Roedd y papur cyntaf (WGE(05)01) yn grynodeb o'r gweithgareddau yn y dyfodol a gweithgareddau a fu rhwng Cymru a'r gwledydd sy'n gwneud cais ers cyfarfod y gweithgor ar 14 Tachwedd.

6. Soniwyd am nifer o weithgareddau, gan gynnwys taith fasnach i Estonia a Latfia ym mis Medi 2003 ac ymweliad swyddogion o'r Cynulliad â Silesia ar 11-13 Mawrth 2003, i fwrw ymlaen â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Cymru a Silesia. Clywodd y gweithgor hefyd bod Awdurdod Datblygu Cymru wedi gwneud cynnig ar gyfer prosiect adfywio Twinning Light yn y Weriniaeth Tsiec. Nid oeddem yn gwybod beth oedd canlyniad y cynnig hwnnw pan gynhaliwyd y cyfarfod, ond rydym wedi clywed ers hynny iddo fod yn llwyddiannus.

7. Yr ail eitem, a'r brif eitem ar yr agenda, oedd adroddiad Mark Dimond o Dimond Associates. Roedd ei gyflwyniad yn amlinellu nifer o opsiynau ar gyfer cysylltu â gwledydd canol a dwyrain Ewrop, gan gynnwys yr opsiwn i "wneud dim" a defnyddio'r Gweithgor fel arf ar gyfer casglu/lledaenu gwybodaeth am gyfleoedd a'i ddefnyddio fel catalydd i ddatblygu partneriaethau strategol.

8. Daeth y cyflwyniad i ben gyda chyfres o gwestiynau y byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth fanwl iddynt cyn y gellid penderfynu pa opsiwn i'w fabwysiadu. Ymysg y rhain roedd y cwestiwn canlynol - a oedd angen parhau i 'glustnodi'r' gwledydd sydd wedi'u derbyn ac a ddylai "Tîm Cymru" flaenoriaethu ei adnoddau wrth ddatblygu cysylltiadau ar sail achos busnes o ran masnach ryngwladol, buddsoddi mewnol, twristiaeth a myfyrwyr tramor etc. Roedd ei adroddiad yn casglu bod cylch gorchwyl cyfredol y Gweithgor yn rhy eang.

9. Gwahoddwyd pob aelod i roi sylwadau unigol ar beth oedd rôl y Gweithgor yn y dyfodol. Roedd y mwyafrif o'r farn nad oedd rôl i'r Gweithgor yn ei ffurf bresennol. Ond roedd rhai'n cefnogi cael rhwydwaith yn seiliedig ar ddysgu ar y cyd a rhannu profiadau.

10. Cytunwyd y dylid dosbarthu'r cynnig ar ddyfodol y gweithgor ymysg yr aelodau i gael eu sylwadau, a'i gyflwyno ger bron cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Ewropeaidd a Materion Allanol ar ôl etholiadau mis Mai.

11. Dosbarthwyd cynnig drafft ymysg aelodau'r gweithgor ar 7 Mai 2003. Roedd yn awgrymu dirwyn y Gweithgor Ehangu i ben a sefydlu Grŵp Partneriaeth a Rhwydweithio Ewropeaidd anffurfiol a fyddai'n gweithredu fel fforwm ar gyfer yr aelodau ac yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae copi o'r cynnig yn **Atodiad A.** Cafwyd nifer o ymatebion ac roedd pob un ohonynt yn cefnogi'r cynnig.

12. Gwahoddir aelodau'r grŵp hwn i nodi cynnwys y papur a chymeradwyo'r cynnig i ddirwyn y Gweithgor Ehangu i ben.

**Cydymffurfio**

13. Mae Rheol Sefydlog 15 yn ymwneud â gweithgareddau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Sefydlwyd y Gweithgor Ehangu ar sail pwerau'r Cynulliad o dan adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Cymru ac roedd yn gyfrifol am adrodd i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Byddai'r Grŵp Partneriaeth a Rhwydweithio Ewropeaidd yn cael ei sefydlu yn anffurfiol ac yn adrodd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Goblygiadau Ariannol**

14. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad yn codi

o'r materion y soniwyd amdanynt yn yr adroddiad hwn.

**Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol**

**ATODIAD A**

**Cynnig ar gyfer Grŵp Rhwydweithio**

**Y Cefndir**

Yn ei gyfarfod ar 28 Mehefin 2001, cytunodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ar gylch gorchwyl ac aelodaeth ddrafft ar gyfer gweithgor i ystyried materion ehangu.

Sefydlwyd y Gweithgor Ehangu a chyfarfu am y tro cyntaf ar 8 Hydref 2001. Mae wedi cyfarfod bump o weithiau, y tro diwethaf ar 27 Mawrth 2003.

Prif nod y Grŵp oedd llywio strategaeth y Cynulliad ar ehangu'r UE, gyda'r bwriad o roi Cymru mewn sefyllfa lle byddai'n elwa cymaint â phosibl o ehangu'r UE.

Nodir cylch gorchwyl, aelodau a gweithdrefnau'r Gweithgor yn Atodiad I.

Yn ei gyfarfod ar 14 Tachwedd 2002, gwahoddwyd y Gweithgor i ailystyried y cylch gorchwyl a'r aelodaeth ac adrodd yn ôl i'r ysgrifenyddiaeth. Cyflwynodd sawl aelod sylwadau ysgrifenedig a chafodd ymgynghorwyr eu comisiynu i gyflwyno argymhellion ar ddyfodol y gweithgor yng nghyfarfod mis Mawrth 2003.

Roedd adroddiad yr ymgynghorwyr yn dod i'r casgliad fod cylch gorchwyl y Gweithgor yn rhy eang ac y dylid hepgor (ii), (iii), (v) a (vi). Roedd y Gweithgor yn gyffredinol yn cymeradwyo'r farn mai'r achos busnes (masnach ryngwladol, twristiaeth etc) ddylai bennu’r strategaeth ar gyfer creu cysylltiadau â gwledydd sydd wedi'u derbyn i'r UE, ac yn hynny o beth mae’n amheus a ddylai'r gwledydd sydd wedi'u derbyn barhau i gael eu "clustnodi". Serch hynny, roedd rhai yn cefnogi cynnal rhwydwaith anffurfiol o gyrff sydd mewn cysylltiad â'r gwledydd newydd er mwyn rhannu profiadau a dysgu ar y cyd.

Cytunodd y Gweithgor y dylid gofyn i’r aelodau roi eu sylwadau ar y cynnig ar waith y Gweithgor yn y dyfodol a'i gyflwyno ger bron cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol newydd ar ôl etholiadau mis Mai.

Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r cynnig hwnnw.

**Cynnig**

- Dylid dirwyn y Gweithgor Ehangu i ben.
- Dylid sefydlu Grŵp Partneriaeth a Rhwydweithio Ewropeaidd i weithredu fel fforwm ar gyfer yr aelodau a rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Rhesymwaith**

Sefydlwyd y Gweithgor Ehangu i adrodd i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Ei brif nod oedd llywio strategaeth y Cynulliad ar ehangu'r UE, gyda'r bwriad o roi Cymru mewn sefyllfa lle byddai'n elwa cymaint â phosibl o ehangu'r UE.

Mae llawer o'r gwaith wedi'i wneud. Erbyn hyn mae'r Gweithgor wedi datblygu cynllun gweithredu ar gyfer ehangu sy'n targedu nifer o ranbarthau a gwledydd o blith y gwledydd sy'n gwneud cais, gydag amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau i'w ategu. Mae'r cynllun yn cael ei weithredu gan Lywodraeth y Cynulliad a sefydliadau eraill.

Fel rhan o'i gylch gwaith cafodd y Gweithgor y dasg o gynghori ar Gydlyniant Economaidd a Chymdeithasol a dyfodol cronfeydd strwythurol, Llywodraethu'r UE, diwygio'r PAC ac arian sengl ac ers iddo gychwyn ar ei waith mae'r Gweithgor wedi derbyn adroddiadau rheolaidd ar y materion hyn. Serch hynny, barn aelodau'r gweithgor yw mai materion polisi Ewropeaidd ehangach yw'r rhain ac nad ydynt yn ymwneud yn benodol ag ehangu, ac felly dylid eu hystyried a'u trafod yng nghyd-destun ehangach Pwyllgorau pwnc y Cynulliad.

Bydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn bwrw ymlaen a thasgau eraill a roddwyd i'r gweithgor, fel adolygu'r trefniadau ar gyfer cydweithio ag ASEau a Phwyllgor y Rhanbarthau.

Yng ngoleuni'r ffaith bod y gwledydd sy'n gwneud cais yn debyg o gael eu derbyn, mae'n amheus pa mor ddilys yw parhau i 'glustnodi' gwledydd newydd. Mae Cymru wedi sefydlu ei rhanbarthau targed yn y gwladwriaethau newydd a bydd yn parhau i ddatblygu cysylltiadau â'r rhanbarthau hynny ynghyd â chyfleoedd sy'n codi mewn gwledydd a rhanbarthau yn Aelod Wladwriaethau a darpar Aelod Wladwriaethau'r UE.

Mae'r Gweithgor wedi gwneud cyfraniad pwysig at yr agenda ehangu yng Nghymru, ond nid oes ei angen mwyach yn y cyd-destun hwnnw. Un o'i brif lwyddiannau oedd nodi a chasglu'r llu o weithgareddau sy'n digwydd ledled Cymru, eu lledaenu ymysg y bartneriaeth ehangach, datblygu cysylltiadau ac annog gweithio ar y cyd.

Mae'r Gweithgor yn gweld pwysigrwydd y rôl hon a chynigir y dylid sefydlu grwp i ddarparu fforwm o'r fath ac adlewyrchu hynny ei enw a'i gyfansoddiad.

**Gwaith y Grwp/Cylch Gorchwyl Drafft**

- Grwp Rhwydweithio Anffurfiol ar lefel swyddogol gyda chynrychiolwyr o "Tîm Cymru". Dylai gwaith y grwp ymateb i bolisïau a blaenoriaethau ei aelodau, a fydd yn cyfrannu fel y bo hynny'n berthnasol.

- Y rhwydweithio i ganolbwyntio'n bennaf ar y gwledydd sydd wedi'u derbyn, y gwledydd sy'n gwneud cais a'r gwledydd sy'n debygol o wneud cais yn y dyfodol

- Casglu a rhannu gwybodaeth am y gweithgareddau sydd eisoes yn bodoli a'r cyfleoedd sy'n codi

- Datblygu partneriaethau a hybu gwaith ar y cyd lle ceir achos busnes cryf

- Parhau i ddatblygu cysylltiadau gyda rhanbarthau a gwledydd targed, gan gynnwys unrhyw Femoranda Cyd-ddealltwriaeth

**Aelodau'r Gweithgor**

- Ymarferwyr o'r bartneriaeth ehangach (er enghraifft WCVA, WLGA, HEW, FSB, TUC Cymru, y sector preifat)

- MasnachCymru Rhyngwladol

- Cadeirydd ac ysgrifenyddiaeth Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol

**Gweithdrefnau**

- Bydd y Gweithgor yn cwrdd bob 4 mis a gallai gwrdd yn gynharach naill ai fel grwp llawn neu'n rhannol os bydd cynnig arbennig yn codi

- Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn mynd ati bob mis i chwilio am wybodaeth i'w rhoi ar gronfa ddata ganolog.

- Bydd gwybodaeth yn cael ei chyfleu drwy gylchlythyr rheolaidd at aelodau'r grwp bob mis/chwarter.